Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Acrefair

Tower View
Acrefair
Wrecsam
LL14 3SH

Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Acrefair

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Acrefair |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 205 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 158 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 17 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 16.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2025 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/09/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 15/06/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Acrefair yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol lle mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn barod i ddysgu. Mae arweinyddiaeth gref yn gosod cyfeiriad clir a disgwyliadau uchel ar draws yr ysgol. Mae staff yn deall eu rolau'n dda ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, gan greu ymdeimlad cynnes o berthyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn teimlo'n hyderus ac yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae addysgu yn cefnogi dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio gwersi difyr, yn defnyddio holi'n fedrus ac yn darparu adborth defnyddiol sy'n cynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu annibyniaeth, gwydnwch ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn gweithio'n dda gyda disgyblion eraill ac yn ymddwyn yn dda iawn, gan gyfrannu at amgylchedd dysgu tawel a phwrpasol.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyfoethog a difyr sy'n gwneud defnydd da iawn o'r ardal leol a phartneriaethau cymunedol. Mae hyn yn helpu disgyblion i fwynhau eu dysgu a deall sut mae'n cysylltu â phrofiadau bywyd go iawn. Un o'r cryfderau arbennig yw'r pwyslais ar ddatblygu ymdeimlad disgyblion o hunaniaeth a pherthyn trwy gysylltiadau lleol, sy'n eu cymell ac yn eu helpu i gydnabod eu rôl o fewn eu cymuned.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd da. Maent yn darllen yn hyderus, yn mwynhau ystod eang o destunau ac yn ysgrifennu at wahanol ddibenion. Mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu dychmygus, er nad yw lleiafrif o ddisgyblion hŷn bob amser yn datblygu eu syniadau'n ddigon manwl. Mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau mathemategol yn effeithiol ac yn defnyddio technoleg ddigidol yn addas i gefnogi eu dysgu. Er bod disgyblion yn mwynhau dysgu Cymraeg, nid yw llawer ohonynt yn siarad yr iaith yn hyderus mewn sefyllfaoedd bob dydd.

Mae gan yr ysgol ddull cadarn ac effeithiol i gefnogi a gwella lles disgyblion. Mae perthnasoedd cryf, gwiriadau lles rheolaidd ac ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr yn helpu disgyblion i deimlo'u bod yn cael cefnogaeth, yn datblygu parch at bobl eraill ac yn tyfu i fod yn unigolion hyderus a meddylgar.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Gwella medrau llafaredd Cymraeg disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Acrefair yn ysgol sy'n rhoi gofal, cymorth a lles disgyblion wrth wraidd ei gwaith. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth dra ystyriol a hynod effeithiol. Mae hi wedi sefydlu gweledigaeth glir ac uchelgeisiol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob aelod o gymuned yr ysgol. Mae staff yn deall eu rolau mewn sicrhau gwelliant ac yn creu ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'r ethos hwn yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn teimlo'n ddiogel, yn mynychu'n rheolaidd ac yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu cadarn ac yn rhoi systemau effeithiol ar waith i fonitro lles disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rheoli eu hemosiynau ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol yn eu dysgu. Mae'r sylfeini cadarn hyn, ochr yn ochr â pherthnasoedd hynod gadarnhaol rhwng staff a disgyblion, yn arwain at amgylchedd dysgu tawel a phwrpasol, ac ymddygiad eithriadol o dda.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn manteisio ar ddysgu proffesiynol buddiol sy'n cryfhau ansawdd a chysondeb addysgu. Mae cydweithio ag ysgolion eraill a hyfforddiant targedig wedi cefnogi gweithredu cwricwlwm mathemateg cydlynus. Mae athrawon yn cyflwyno gwersi ag eglurder, gan alluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da wrth ddatblygu eu dealltwriaeth fathemategol. Mae llawer o ddisgyblion iau yn esbonio'u meddwl yn glir gan ddefnyddio adnoddau ymarferol, tra bod y rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn cymhwyso'u medrau rhifiadol yn effeithiol ar draws ystod o gyd-destunau ystyrlon.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynnal cyflymdra difyr yn ystod gwersi ac yn rhoi adborth buddiol i ddisgyblion i wella'u gwaith. Maent yn defnyddio dysgu blaenorol yn dda, yn holi disgyblion yn fedrus ac yn addasu eu haddysgu i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu gwydnwch a chymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu gwaith eu hunain. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn cydweithio'n dda â chyfoedion wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae arweinwyr a staff wedi creu cwricwlwm sy'n cysylltu'n bwrpasol ag ardal leol a chymuned yr ysgol. Mae staff yn cynllunio profiadau dysgu cyfoethog sy'n gwneud defnydd effeithiol o'r ardal gyfagos ac yn meithrin partneriaethau cymunedol cryf. Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd difyr sy'n eu cymell ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth o ystod eang o themâu a thestunau diddorol.

### Ciplun: Hyrwyddo ymdeimlad o Gynefin trwy gysylltiadau lleol

Mae staff yn cydweithio i gynllunio cwricwlwm eang a dilys sydd wedi'i wreiddio'n gadarn yn y cyd-destun lleol, gyda chysylltiadau gwerthfawr â diwydiant a thwristiaeth. Trwy brofiadau dysgu gwerthfawr, fel ysgrifennu at eu haelod rhanbarthol o'r Senedd am ddiogelu'r amgylchedd, mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o Gynefin a balchder cymunedol, gan ddyfnhau eu dealltwriaeth o hunaniaeth a pherthyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u dysgu'n hyderus mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn ac yn datblygu ymwybyddiaeth glir o'u rôl fel dinasyddion gweithgar o fewn eu hardal leol uniongyrchol a thu hwnt.

Mae ffocws yr ysgol ar ddatblygu cwricwlwm eang yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu ystod eang o fedrau gwerthfawr. Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer dysgu digidol yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddefnyddio ystod briodol o ddyfeisiau yn hyderus i wella'u gwaith. Yn yr un modd, mae cyfleoedd creadigol, yn cynnwys partneriaethau â darparwyr allanol, yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn datblygu eu medrau artistig a cherddorol yn dda. Mae'r profiadau hyn, a gefnogir gan wasanaethau wedi eu cynllunio'n dda ac addysgu cynhwysol, yn ymestyn datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion ac yn eu helpu i ddod yn fyfyriol, yn barchus ac yn werthfawrogol o amrywiaeth a gwahanol safbwyntiau.

Trwy addysgu effeithiol a darpariaeth gynlluniedig, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn dda. Mae athrawon yn defnyddio llyfrau ac adnoddau ysgogol i sicrhau bod diwylliant darllen cadarnhaol yn ganolog i'r cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ffoneg ac yn mwynhau gwrando ar storïau, tra bod y rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn darllen yn rhugl a gyda dealltwriaeth dda ar draws ystod gynyddol eang o destunau cyfoethog ac amrywiol.

Mae arweinwyr a staff wedi cryfhau darpariaeth ar gyfer ysgrifennu disgyblion yn llwyddiannus. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i strwythuro a mireinio'u hysgrifennu. Yn yr enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn cynhyrchu darnau o waith dychmygus a difyr. O bryd i'w gilydd, nid yw lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn datblygu eu syniadau gyda manylder na chywirdeb digonol.

Mae staff yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer medrau cyfathrebu disgyblion. Mae athrawon yn modelu geirfa uchelgeisiol yn effeithiol ac yn darparu cyfleoedd mynych ar gyfer trafod, gan gynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddod yn gyfathrebwyr hyderus a huawdl. Mae arweinwyr yn mynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag ati ymhlith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw dulliau addysgu presennol yn magu hyder disgyblion i siarad Cymraeg yn ddigonol dros gyfnod. O ganlyniad, nid yw gallu disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sgyrsiau syml wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Yn y dosbarthiadau ieuengaf, mae staff yn sicrhau bod darpariaeth yn adlewyrchu anghenion datblygiadol disgyblion yn gywir. Mae cyfleoedd cynlluniedig ar gyfer chwarae pwrpasol, wedi eu cefnogi gan ddefnyddio staff cymorth yn effeithiol, yn annog y rhan fwyaf o ddisgyblion i archwilio, cydweithio a datblygu annibyniaeth. Trwy'r profiadau hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hefyd yn meithrin medrau corfforol addas ochr yn ochr â'u chwilfrydedd a'u hyder, gan greu sylfaen gref ar gyfer dysgu yn y dyfodol wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu systemau cynhwysol i gynorthwyo disgyblion ag ADY. Mae staff yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i ddarparu cymorth teilwredig ar gyfer disgyblion a nodwyd trwy nodau dysgu manwl gywir ac ymyriadau targedig. Mae'r dull cydlynus hwn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau unigol. Yn yr un modd, mae arweinwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i ddarparu cymorth buddiol ar gyfer lles a medrau llythrennedd cynnar disgyblion cymwys.

Mae staff yn rhoi pwyslais addas ar hyrwyddo llais y disgybl, gan adlewyrchu ethos cynhwysol yr ysgol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu ac ymgymryd â rolau arwain. Mae grwpiau fel "Arwyr Hapusrwydd ("Happiness Heroes") yn casglu barn disgyblion ac yn cyfrannu at fonitro effeithiolrwydd darpariaeth les. Er bod y cyfleoedd hyn yn cryfhau ymdeimlad disgyblion o berthyn a chyfrifoldeb, mae cyfarwyddyd gan oedolion yn cyfyngu ar annibyniaeth disgyblion yn rhy aml yn y rolau hyn.

Mae llywodraethwyr yn chwarae rôl bwysig yn cefnogi gwaith yr ysgol. Maent wedi datblygu dealltwriaeth gynyddol o ansawdd addysgu a dysgu trwy werthuso tystiolaeth uniongyrchol a mynd ati i fonitro blaenoriaethau cenedlaethol, yn cynnwys gwella presenoldeb. Mae hyn yn cryfhau atebolrwydd ar y cyd ac yn cefnogi arweinwyr i yrru gwelliant. Mae llywodraethwyr ac arweinwyr yn rheoli heriau ariannol yn ofalus. Maent yn sicrhau cyllid ychwanegol ac yn defnyddio adnoddau'n strategol, fel y rhai i ymestyn darpariaeth ddysgu yn yr awyr agored. Mae'r penderfyniadau hyn yn gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at brofiadau disgyblion.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau hunanwerthuso effeithiol sy'n cysylltu'n agos â chynllunio gwelliant. Maent yn casglu ystod eang o dystiolaeth i nodi blaenoriaethau'n gywir ac yn cymryd camau pwrpasol. Yn ddiweddar, maent wedi cryfhau diogelwch ar y safle ac wedi gwella cysondeb addysgu mathemateg i ymateb i'w canfyddiadau. Mae'r gwelliannau hyn yn dangos gallu arweinwyr i ysgogi newid ystyrlon sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae partneriaethau cryf â rhieni a'r gymuned ehangach yn ymestyn darpariaeth yr ysgol ymhellach. Mae cyfathrebu clir a staff sy'n bobl hawdd mynd atynt yn meithrin

ymddiriedaeth â theuluoedd, tra bod cysylltiadau â sefydliadau lleol yn darparu cyfleoedd dysgu gwerthfawr, fel coginio a phrofiadau yn yr awyr agored. Mae gan yr ysgol berthynas gref a buddiol â'i phartneriaid clwstwr. Mae gwaith yma wedi helpu datblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant ac wedi cefnogi gwelliannau yn y graddau y mae disgyblion yn deall y camau nesaf yn eu dysgu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Maent wedi rhoi cynllun adfer ar waith i wella'r sefyllfa bresennol o ran y diffyg yn y gyllideb, ac mae hyn wedi cael ei awdurdodi gan yr awdurdod lleol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/08/2026